Sgwrsio'n fyw gyda ni

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Mae Gyrfa Cymru wedi lansio ei adnodd sgwrsio byw gyda chynghorwyr gyrfa ar gyfer Cymru gyfan, fel y gall pobl ifanc a'u rhieni ddal i gael cyngor gyrfaoedd hanfodol ynglŷn â'u hopsiynau a'u camau nesaf, tra bod ysgolion a cholegau ar gau.

Gallwn ni helpu:

- Disgyblion ysgol sy'n ansicr ynghylch eu camau nesaf yn dilyn penderfyniadau diweddar ar gau ysgolion ac arholiadau
- Myfyrwyr addysg bellach sydd am ddeall eu hopsiynau a beth sy'n digwydd nesaf
- Rhieni sy'n poeni am opsiynau a gyrfa eu plentyn yn y dyfodol
- Pobl ifanc sydd fel arfer yn cael eu haddysgu gartref.

Sut mae cymryd rhan yn y sgwrs fyw?

Mae'r cyfleuster sgwrsio byw ar gael o ddydd Llun i ddydd Iau: 9am tan 5pm, dydd Gwener: 9am tan 4:30pm.

- Ewch i gyrfacymru.llyw.cymru a chlicio ar yr eicon 'Gadewch neges' ar waelod y dudalen hafan.
- Dewiswch yr opsiwn i siarad ag un o'n cynghorwyr am ddewisiadau yn yr ysgol/coleg neu unwaith y byddwch chi/eich plentyn yn gadael addysg amser llawn.
- Yna, byddwch yn cael eich cyfeirio at un o'n cynghorwyr gyrfa arbenigol.

Cofiwch fod gennym lu o adnoddau, offer a gwybodaeth ar gael ar ein gwefan. Beth am roi cynnig ar yr ap Cwis Buzz gartref fel teulu i ddarganfod pa anifail ydych chi!

This poster is also available in English

0800 028 4844 Sgwrs ar-lein post@gyrfacymru.llyw.cymru

gyrfacymru.llyw.cymru